# Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer ystyried y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru)

Tachwedd 2016

Ar 28 Tachwedd 2016, cafodd Bil Llywodraeth, y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru), ei gyflwyno yn y Cynulliad.

Ar 8 Tachwedd 2016, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Cyllid er mwyn iddo ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

Ar 15 Tachwedd 2016, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, trefnodd y Pwyllgor Busnes amserlen i'r Pwyllgor ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chytunodd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 10 Mawrth 2017.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 26 Mai 2017, ar yr amod bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.